**Hysbysiad o Benderfyniad: Cynigion i Ad-drefnu Darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Prif Ffrwd - Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf**

Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023, penderfynodd Cabinet y Cyngor i weithredu'r cynigion canlynol:

- Cynnig 1 - Symud y dosbarth cynnal dysgu Arsylwi ac Asesu yn Ysgol Gynradd Penrhiwceibr i Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i ddod i rym o 1 Medi 2024.

- Cynnig 2 - Trosglwyddo'r dosbarth cynnal dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 3-6 ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) yn Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i greu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd yn Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn, i ddod i rym o 1 Medi 2024.

- Cynnig 3 - Sefydlu un dosbarth cynnal dysgu (Asesu ac Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Gymunedol Abercynon i ddod i rym o 8 Ebrill 2024.

- Cynnig 4 - Sefydlu dau ddosbarth cynnal dysgu cyfrwng Cymraeg Cyfnod Cynradd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhydfelen (YGG Awel Taf) ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol, i ddod i rym o 1 Medi 2024.

- Cynnig 5 - Sefydlu un dosbarth cynnal dysgu ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7-11 ag ASA yn Ysgol Afon Wen, yr ysgol 3-16 oed newydd ar safle Ysgol Gynradd/Uwchradd y Ddraenen Wen, i ddod i rym o 1 Medi 2024.

Ddaeth saith gwrthwynebiad i law mewn perthynas â Chynnig 2 yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol ac o'r herwydd, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, cafodd adroddiad gwrthwynebiadau ei lunio. Mae modd gweld copi o'r adroddiad ar wefan y Cyngor gan ddefnyddio'r ddolen isod. Mae modd cael copïau papur ar gais.

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/SchoolConsultations/Schoolconsultations.aspx


Cafodd y rhesymau dros y cynnig, a'r rhesymeg y tu ôl iddo, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad yma i'w weithredu eu nodi'n llawn a'u hesbonio yn y ddogfen ymgynghori a gafodd ei dosbarthu'n eang yn gynharach eleni. Yn ogystal â'r rhesymeg gadarn, dylid nodi bod dyddiadau rhoi cynigion 1 a 2 ar waith wedi'u hadolygu'n unol ag adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Wrth ddod i'w benderfyniad terfynol, daeth y Cabinet felly i'r casgliad bod y buddion yn sgil cyflawni'r cynigion yma'n gadarnhaol dros ben. Bydd y cynigion yn darparu:

- Darpariaeth i gyd-fynd â phroffil presennol anghenion plant ag ADY.
- Sefydlu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ychwanegol i alluogi disgyblion ag ADY sylweddol i gael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol llawn amser.
- Lleihad yn nifer y trosglwyddiadau rhwng lleoliadau ar gyfer rhai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed.
- Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar ychwanegol i fodloni'r galw cynyddol am ymyrraeth gynnar.

Yn seiliedig ar y deilliannau yma, penderfynodd y Cabinet i gymeradwyo'r cynigion yma.

Yn gywir,



**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**